

## **CAMFANTEISIO AR BLANT A PHOBL IFANC AR LEIN**

Camdriniaeth ar-lein yw unrhyw fath o gamdriniaeth sy'n digwydd ar y we, boed trwy rwydweithiau cymdeithasol, chwarae gemau ar lein neu ddefnyddio ffonau symudol.

Gall camdriniaeth ar-lein fod yn rhan o gamdriniaeth sy'n digwydd yn y byd go iawn (er enghraifft, bwlio neu feithrin perthynas amhriodol). Neu efallai nad yw'r gamdriniaeth ond yn digwydd ar lein (er enghraifft, perswadio plant i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol ar lein).

Gall plant fod mewn perygl o gamdriniaeth ar-lein gan bobl maen nhw'n eu hadnabod, yn ogystal â dieithriaid.

Gall plant deimlo nad oes modd dianc rhag camdriniaeth ar-lein. Gall pobl sy'n eu cam-drin gysylltu â nhw ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos, gall y gamdriniaeth ddod i mewn i leoedd diogel fel eu hystafelloedd gwely, a gall lluniau a fideos gael eu storio a'u rhannu gyda phobl eraill.

Gall plant a phobl ifanc ddioddef **Seiberfwlio**, sy'n cynnwys:

- anfon negeseuon testun bygythiol neu ddifriol
- creu a rhannu lluniau neu fideos sy'n achosi embaras
- 'trolio' – anfon negeseuon sy'n bygwth neu'n achosi trallod ar rwydweithiau cymdeithasol, ystafelloedd sgwrsio neu gemau ar-lein
- eithrio plant o gemau ar-lein, gweithgareddau neu grwpiau cyfeillgarwch
- creu safleoedd neu grwpiau casineb am blentyn penodol
- annog pobl ifanc i hunan-niweidio

Gall plant a phobl ifanc ddioddef **meithrin perthynas amhriodol**, sy'n cynnwys:

- Meithrin perthynas amhriodol yw pan fo rhywun yn meithrin cysylltiad emosiynol gyda phlentyn er mwyn ennyn ei ymddiriedaeth at ddibenion cam-drin rhywiol, camfanteisio rhywiol neu fasnachu.
- Gall dieithryn neu rywun maen nhw'n ei adnabod – er enghraifft, aelod o'r teulu, ffrind neu weithiwr proffesiynol – feithrin perthynas amhriodol gyda phlant a phobl ifanc, ar lein neu wyneb yn wyneb.
- Gallai'r rhai sy'n meithrin perthynas amhriodol fod yn wryw neu'n fenyw, ac o unrhyw oed.
- Nid yw llawer o blant a phobl ifanc yn deall bod rhywun wedi meithrin perthynas amhriodol gyda nhw neu beth sydd wedi digwydd

Gall plant a phobl ifanc ddioddef **Camdriniaeth rywiol, Camfanteisio rhywiol neu Gamdriniaeth emosiynol**. Pan fo camfanteisio rhywiol yn digwydd ar lein, gall pobl ifanc gael eu perswadio, neu eu gorfodi, i:

- anfon neu bostio lluniau rhywiol ohonynt eu hunain
- cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol trwy we-gamera neu ffôn clyfar
- cael sgysiau rhywiol trwy negeseuon testun neu ar lein
- Efallai bydd y sawl sy'n ei gam-drin yn bygwth anfon lluniau, fideo neu gopiâu o sgysiau at ffrindiau a theulu'r person ifanc os na fydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol arall
- Gall lluniau neu fideos gael eu rhannu o hyd amser maith ar ôl i'r gamdriniaeth rywiol ddod i ben.

Isod mae'r dolenni i wefannau'r Bwrdd Diogelu ar gyfer plant ac oedolion:

<http://www.sewsc.org.uk>

<http://www.gwasb.org.uk>